



Nos Iau, 12 Mawrth 2026 – 7.30yh
Festri Salem, Penmachno

cofnodion drafft

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd **nos Iau 12 Mawrth 2026** am 7.30, Festri Salem, Penmachno

1. Croeso ac ymddiheuriadau am absenoldeb
2. Datganiad o fuddiant
3. Derbyn cofnodion y cyfarfod diwethaf
4. Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol (nid fel arall ar yr agenda)
5. Y Cwt Hers
6. Dŵr / Iâ ar lwybr cyhoeddus 55, llwybr y Waen
7. Torri'r glaswellt: Cae chwarae, Cwm Penmachno
8. Penodi contractwr i drwsio giât yr eglwys
9. Tŷ Swch, Cwm Penmachno
10. Dŵr ar y Migneint
11. Y Parth 20mya, Penmachno
12. Cymuned Di-blastig Betws-y-coed a'r Fro
13. Adolygu a chymeradwyo trafodion ariannol diweddar
14. Er gwybodaeth
 - a. dympio gwastraff cartref yn y goedwig: datganiad gan breswlydd o Benmachno
15. Materion brys

Presennol:

Bethan Corrigan
Claire Roberts
Dafydd Gwyndaf
Daniel Tomos (Clerc)
Dylan Davies (Is Gadeirydd)
Eryl Owain (Cadeirydd)
Geraint Thomas
Owen Davis
Wil Edwards
Dilwyn Roberts (Cyngorydd Sir)

Ymddiheuriadau:

Eifion Davies

Datganiad o fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiadau

Derbyn cofnodion y cyfarfodydd diwethaf

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar **08 Ionawr** a **14 Ionawr 2026** fel cofnod cywir. Bethan Corrigan yn cynnig a Dylan Davies yn eilio.

Materion yn codi:

Trwsio'r wal ym Mynwent Arwelfa

Adroddwyd bod y prosiect wedi'i gwblhau.

Goleuadau Traffig ger yr Ysgol: Adroddwyd bod y Cyngor Sir ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda Dŵr Cymru. Cyhoeddir amserlen ar gyfer atgyweirio'r cwlferd a chael gwared ar y goleuadau traffig wedi hynny maes o law.

Llwybrau Cyhoeddus: Adroddwyd bod CNC wedi gosod arwyddion a giât mochyn ar lwybr cyhoeddus 49.

Toiled Cyhoeddus: Adroddwyd bod gan y toiled ffan nad yw'n gweithio oherwydd synhwyrdd lleithder wedi torri. Penderfynwyd disodli'r ffan gyda fent syml.

Bws Ysgol: Adroddwyd bod y Clerc wedi cael cyfarfod gyda'r Aelod o'r Senedd, sydd am i rieni gysylltu â hi'n uniongyrchol. Penderfynwyd cysylltu â'r cwmni bysiau.

Llifogydd - Trac Newydd, Carrog: Adroddwyd nad yw'r Cyngor Sir wedi ymateb o hyd.

Defnydd o White Street fel Cilffyrdd sydd ar agor i Unrhyw Draffig: Adroddwyd nad yw'r Cyngor Sir wedi ymateb o hyd.

Diffibrilwyr: Penderfynwyd talu costau gosod diffibriliwr yn Nhŷ Coch Wybrnant, yn ogystal â'r un a gytunwyd eisoes ar gyfer Ffordd Ysbyty. Cynhaliwyd trafodaethau pellach ynghylch hyfforddiant a'r posibilrwydd o gael stondin yn niwrnod hwyl Penmachno. Mynegwyd diolch i'r Clerc am wirio'r diffibrilwyr yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn barod ar gyfer argyfwng.

Cwyn ynghylch cyflwr eiddo ac ymddangosiad stryd – White Street: Adroddwyd bod cyflwr yr eiddo wedi gwella.

Baw Cŵn: Adroddwyd bod problem o hyd gyda baw cŵn ym Mhenmachno. Penderfynwyd mynd i'r afael â'r broblem gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac adroddiad yn yr Odyn.

Y Cwt Hers

Adroddwyd bod Cwt Hers y Cyngor Cymuned ger Eglwys Sant Tudclud yn dal i gael ei defnyddio gan grŵp lleol sydd â'r agoriadau ar hyn o bryd.

Dŵr / Iâ ar Lwybr Cyhoeddus 55, Llwybr y Waen

Penderfynwyd adrodd y mater i'r Cyngor Sir eto.

Trwsio giât yr eglwys

Adroddwyd bod yswirwyr y cyngor cymuned wedi talu costau'r gwaith. Nodwyd bod Dinas Contracting Cyf wedi cael y contract i gyflawni'r gwaith yn unol â'r trefniadau yswiriant.

Tŷ Swch, Cwm Penmachno

Adroddwyd bod cwyn wedi dod i law ynghylch cyflwr yr eiddo. Penderfynwyd rhoi gwybod am y mater i Awdurdod y Parc ac i lechyd yr Amgylchedd, ac i roi gwybod am y cerbydau a adawyd i'r DVLA.

Parth 20mya Penmachno

Adroddwyd bod y Cyngor Sir yn bwriadu newid rhan o'r B4406 o 20mya i 30mya. Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor i'w hatgoffa bod problem barhaus gyda gyrwyr sy'n goryrru, bod y Cyngor Cymuned wedi gofyn am i'r terfyn cyflymder aros yn 20mya, ac os yw'r terfyn i'w gynyddu yna bydd angen mesurau tawelu traffig.

Cymuned Di-blastig Betws-y-coed a'r Fro Cynigiodd Wil gymryd lle Geraint fel cynrychiolydd y Cyngor.

Adroddiad Cyllidol

Darparodd y Clerc restr o'r holl drafodion ariannol ers y cyfarfod diwethaf i'w dadansoddi. Cytunwyd bod popeth mewn trefn.

Er Gwybodaeth

Dympio gwastraff cartref yn anghyfreithlon: Adroddwyd bod preswlydd lleol wedi cysylltu â'r Cyngor i ddatgan nad oeddent yn gyfrifol am y gwastraff y cyfeiriwyd ato yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Ionawr.

Iechyd Digidol y Cyngor - Un Llais Cymru: Adroddwyd bod Un Llais Cymru wedi ysgrifennu adroddiad yn amlinellu gofynion ac argymhellion.

SP Energy: Adroddwyd bod SP Energy bellach wedi digolledu'r Clerc am y goramser sylweddol a weithiodd yn ystod cam cyntaf y gwaith cebl ym Mhenmachno.

Safle Trin Dŵr Gwastraff – Cwm Penmachno: Adroddwyd bod y cynllun wedi symud i Gam 2 o'r rhaglen gyfalaf ac ar hyn o bryd yn y cyfnod datblygu opsiynau. Bydd Dŵr Cymru yn cyfarfod â'r Cyngor Cymuned unwaith y bydd dyluniad wedi'i ddewis.

Materion Brys

Dim un

Diolch i'r Cadeirydd

Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei wasanaeth diflino yn ystod cyfnod o ddwy flynedd heriol iawn i'r Cyngor Cymuned, gan gynnwys yr aflonyddwch hirfaith a achoswyd gan y gwaith ffordd diweddar.

Cyfarfod nesaf

Cynhelir cyfarfod nesaf y cyngor nos Iau 14 Mai 2026, 7.30 yn festri Capel Salem.